Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau, Nos Fawrth 4 Hydref 2022, am 7.30 pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd) Janine Roberts, Rhys Williams, Jane Morgan (sydd hefyd yn Glerc), y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Ymddiheuriadau: Pauline George, Aled Williams, John Williams.
Datganiad o Fuddiant. Rhys Williams, Eitem 7 – Cynllunio.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06.09.2022 yn gywir.
Materion yn codi.
Y Pagoda/Pafiliwn. Y Clerc i gael dau ddyfynbris fel y gofynnwyd amdanynt ar-lein gan Zurich.
Swydd y Clerc. Nid oedd unrhyw un wedi dangos diddordeb yn y swydd hyd yma. Cytunwyd y dylai'r hysbyseb gael ei haddasu i gynnwys cyflog o £5,000 y flwyddyn ynghyd â threuliau. Byddai'r Clerc yn gofyn am gyngor gan Un Llais Cymru ac yn cysylltu â Chymdeithas Clercod y Cynghorau Lleol a Chyngor Sir Gâr.
CAIS CYNLLUNIO E/34849. Tir gyferbyn â Tegfan, Talyllychau, Llandeilo. Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio Amlinellol. Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Gâr yn nodi yr ymgynghorwyd â'r Cyngor Cymuned ynghylch y cais ar 15 Rhagfyr 2016. Cafodd y cais ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 6 Ebrill 2017 yn amodol ar ymrwymiad gan yr ymgeisydd i lofnodi Cytundeb Adran 106. Cwblhawyd y Cytundeb ar 6 Medi 2022, a chyhoeddwyd y penderfyniad.
Cynhelir Cinio'r Cyngor yng Ngwesty'r Plough nos Wener 14 Hydref 2022 am 7.30 p.m.
Byddai Rheoliadau'r Fynwent yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.
Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Datganiad o Falans y Cyfrif ar 23.09.2022 – £9,997.48, yn cynnwys y praesept o £3,333.33 a ddaeth i law ar 31.08.2022.
Torri Glaswellt y Fynwent. Roedd dwy anfoneb wedi dod i law oddi wrth M & J Maintenance: dyddiedig 10.09.2022 am £600.00 a 27.09.2022 am £600.00. Cytunwyd i dalu'r cyfanswm o £1,200.00.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post ac a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Diffibrilwyr. Cafwyd rhestr wirio mis Medi gan Wyn Edwards.
Llythyr oddi wrth *Y Lloffwr* yn gofyn am gyfraniad ariannol. Caiff y mater hwn ei drafod ddiwedd y Flwyddyn Ariannol.
Roedd llythyr wedi dod i law gan drigolion lleol a oedd yn bryderus iawn ynghylch cŵn yn baeddu ar gae'r Gymuned ac yn enwedig cae'r Ysgol/y Gymuned a ddefnyddir gan blant ysgol. Roedd y Cynghorwyr hefyd yn bryderus iawn ynghylch y mater ac, yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod angen gosod arwyddion "Dim Cŵn" ger pob mynedfa cyn gynted â phosibl. Cytunodd y Cynghorydd Sir Fiona Walters i gysylltu â Chyngor Sir Gâr ynghylch y mater hwn, ac felly cytunwyd i anfon y neges e-bost a gafwyd a neges e-bost oddi wrth y Cyngor Cymuned at y Cynghorydd Walters.
Roedd llythyr wedi dod i law oddi wrth Glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn gofyn am gymorth ariannol. Cytunwyd y dylid rhoi £50.00 yr un i'r Clybiau canlynol – CFfI Dyffryn Cothi, CFfI Llandeilo, CFfI Llanfynydd ac CFfI Llangadog.

Cynllunio.
Datganodd Rhys Williams fuddiant, a gadawodd yr ystafell.
Cais PL/04723 – Storfa maethynnau gyda chlawdd pridd i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Fferm Glan yr Afon Ddu Ganol, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7DR – Glan Yr Afon Ddu Ganol, Cwmdu, Llandeilo, SA19 7DR. Dim gwrthwynebiadau.

Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Sylwyd bod y broblem o ran sbwriel bellach yn fwy amlwg ers i'r glaswellt gael ei dorri ar y lleiniau glas. Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cynghorydd Sir Fiona Walters y byddai'n hysbysu Cyngor Sir Gâr ynghylch y broblem gan ofyn i'r sbwriel gael ei gasglu yno.
Byddai'r Clerc yn mynd ar drywydd neges e-bost a anfonwyd at Gyngor Sir Gâr ynghylch pyst Rygbi/Pêl-droed ar Gae'r Ysgol/y Gymuned. Y Clerc i fynd ar drywydd y newidiadau i'r trefniadau rheoli traffig yn y pentref – goleuadau terfyn cyflymder ar y naill ochr a'r llall o'r pentref. Cyflwynodd Fiona Walters ddiweddariad ac adroddiad byr ar ddigwyddiadau diweddar.
Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.25 p.m.
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 1 Tachwedd 2022 am 7.30 p.m. yn Ysgol Talyllychau.